Ymyriadau cynllun teithio cynaliadwy

Rhestr gyfeirio gyflym ar gyfer yr Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)

Mawrth 2009

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Her Iechyd Cymru Health Challenge Wales

YMUNWCH Â'R MUDIAD sustrans JOIN THE MOVEMENT

Sustrans yw elusen trafnidiaeth gynaliadwy flaenaf y DU.

Ein gweledigaeth yw byd lle mae pobl yn dewis teithio mewn ffyrdd sydd o fudd i'w hiechyd a'r amgylchedd. Rydym yn gweithio ar atebion ymarferol ac arloesol i'r heriau trafnidiaeth sy'n ein hwynebu ni gyd. Sustrans yw'r elusen sy'n gyfrifol am y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol gwobrwyed, Llwybrau Diogel i'r Ysgol, Bike It,TravelSmart, Teithio Byw, Connect2 a Liveable Neighbourhoods, pob un yn brosiect sy'n newid ein byd fesul milltir.

Er mwyn darganfod rhagor ewch i neu ffoniwch: www.sustrans.org.uk 0845 113 00 65

Sustrans Cymru
107 Stryd Bute
Caerdydd
CF10 5AD

Sustrans Cymru yn gweithio gyda'r GIG

Ariannir Sustrans Cymru gan Lywodraeth cynulliad Cymru i gefnogi prif safleoedd GIG i hyrwyddo a gweithredu cyfleoedd teithio e i staff, ymwelwyr a chleifion.

© Sustrans Mawrth 2009
Rhif Elusen Gofrestredig 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban)
Rhif Cofrestru TAW .416740656

Camau Gweithredu Cynllunio Teithio

Beth ellir ei gyflawni?

Paratowyd y ddogfen hon gan Sustrans Cymru er mwyn cynorthwyo gyda cham gwneud penderfyniadau y broses cynllunio teithio ac i ddarparu arweiniad ar ystod o opsiynau y gellir eu cyflawni. Mae'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar leihau'r nifer o geir gydag un person yn unig ynddynt sy'n cyrraedd y safle ac yn cefnogi rhaglen i gynyddu nifer y teithiau sy'n defnyddio dull teithio mwy cynaliadwy. Ni eir i'r afael yn y ddogfen hon â materion cerbydau cefnogi'r safle, trafnidiaeth gymunedol na cherbydau nwyddau.

Dylai eich cynllun teithio ddangos bod ymchwil a wnaed a drwy holiaduron, cyfweliadau wyneb yn wyneb ac archwiliadau safle yn creu darlun cryf o ddewisiadau teithio presennol staff, ymwelwyr a chleifion, Dylai'r canlyniadau hyn wedyn lywio a chynorthwyo i ddatblygu'r 'pecyn o fesurau' y gellir eu cyflwyno i gyflawni eich amcanion cynllun teithio chi.

Mae'r tabl isod yn cynnig nifer o opsiynau y gellir eu rhoi ar waith. Er mwyn cyflawni'r newidiadau ymddygiad teithio a ddymunir mae'n well pecynnu'r camau gweithredu hyn i gynnwys cymhelliannau a gwrth-gymhelliannau, a chyfuno hynny gyda rhaglen gyfathrebu gadarn.

Caiff yr opsiynau eu grwpio o dan y penawdau canlynol: parcio, trafnidiaeth gyhoeddus, teithio byw, rhannu car a gwybodaeth a chymhelliant. Er mwyn hwyluso'r broses gwneud penderfyniadau, mae'r camau gweithredu wedi eu codio o ran costau a'r ymdrech sydd ei hangen i'w rhoi ar waith:

QW: Canlyniadau Cyflym (Dim cost, gyda'r gofynion lleiaf posibl o ran adnoddau dynol ac yn gymharol hawdd i'w rhoi ar waith)
RC: Cost Adnoddau (Angen adnoddau dynol mewnol)
CC: Cost Cyfalaf (Angen costau cyfalaf. Tybir y bydd hefyd angen adnoddau dynol)

camau gweithredu

(Dylai pob cam gweithredu gael ei marchnata a'i hyrwyddo yn dda drwy'r rhaglen gyfathrebu. Gweler tud 7-8 am awgrymiadau.)

	parcio		trafnidiaeth gyhoeddus		teithio byw		rhannu car
QW	Ystyried dechreuwyr newydd: dim ond cyflwyno trwyddedau parcio os ydynt yn byw radiws pellach na 1/2/3 milltir o'r safle. Darparu gwybodaeth ar drafnidiaeth amgen.	QW	Amseroedd trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn hawdd - amserlenni bws a thrên ar gael yn y brif dderbynfa a'r adeiladau adrannol ynghyd â gwybodaeth amser real yn yr arosfannau.	QW	Sefydlu Cynllun Beicio i'r Gwaith aberthu cyflog (gall y mesur hwn gael ei gefnogi gan gamau gweithredu priodol o'r 'archwiliad ansawdd').	QW	Sefydlu cynllun rhannu car drwy Gydlynwyr Cynllun Teithio Rhanbarthol. Mae'r defnyddio'r gr p agored am ddim.
QW	Yn dilyn arolwg maes parcio, dim ond darparu trwyddedau maes parcio i'r rhai sy'n byw ymhellach na 1/2/3 milltir o'r safle (rhaid rhoi ystyriaeth i allu/ dibynyddion/ oriau gwaith).	QW	Gosod pwyntiau gwybodaeth - ar gael drwy ariannu o Loegr. Mae pwyntiau gwybodaeth yn darparu gwybodaeth llinell gefnogi trafnidiaeth ac ysbyty- benodol am ddim i ddefnyddwyr.	QW	Darparu cyfarwyddiadau teithio byw ar bob tudalen gwe/mewnrwyd/ rhyngrwyd/cardiau apwyntiad a llythyrau/seminarau ac ati. Gall Sustrans ddarparu cefnogaeth.	QW	Annog y cynllun rhannu car. Lle wedi ei gadw ar gyfer ceir gyda 2+ neu 3+ o bobl. Gall hyn fod ar sail rhif cofrestru neu'r cyntaf i'r felin.
RC	Gwneud trwyddedau parcio undydd a pharcio brys ar gael i'r rheiny na ddarperir trwydded eu cyfer yn rheolaidd, ond a allai fod angen car weithiau ar gyfer busnes neu mewn sefyllfa frys.	QW	Gosod tudalen lanio 'dolen atom ni' Traveline Cymru yn nhudalennau gwe yr Ymddiriedolaeth ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.	QW	Darparu mapiau (am ddim) sy'n dangos llwybrau cerdded a beicio a'r pellter/amseroedd i leoliadau poblogaidd. Gall y rhain gael eu hanfon gyda slipiau cyflog. Efallai bod gan rai Awdurdodau Lleol fapiau yn barod e.e. Map Beicio Caerdydd.	QW	Cyflwyno cyfradd unffurf ar gyfer hawliadau am filltiroedd - waeth beth fo maint yr injan. Mae hyn yn cefnogi targedau amgylcheddol ac yn annog dewisiadau teithio amgen yn lle gyrru.

	parcio		trafnidiaeth gyhoeddus		teithio byw		rhannu car
RC	Ail ddosbarthu trwyddedau bob chwe mis i sicrhau darpariaeth deg ar leoedd a ddyrennir sy'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau personol.	QW	Defnyddio cyfleustearu MODUS yn Traveline Cymru, i lunio cynlluniau teithio unigol. Gwasanaeth am ddim. Ar gael erbyn 2010.	QW	Arwyddion clir llwybrau cerdded/beicio i orsafoedd trên/bysiau, canol y dref, Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Gweithio gyda Sustrans a grwpiau cerdded /BUG i nodi llwybrau.	QW	Trafnidiaeth Gymunedol - defnyddio gwasanaethau gwirfoddol i gludo cleifion i'r safle ac oddi yno. Gall hyn leihau gofynion parcio ar gyfer cleifion.
RC	Newid graddol i'r dyraniad parcio i sicrhau bod ymwelwyr a chleifion yn cael gofodau agosaf at adeiladau ysbytai h.y. agosaf at yr ysbyty ar gyfer cleifion ac ymwelwyr; yna mannau wedi'u cadw ar gyfer rhai sy'n rhannu car, yna trwyddedau, yna rhydd i bawb yn bellaf i ffwrdd.	RC	Cydlynu gyda pharciau busnes lleol i adeiladau gallu ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. Mynd â thystiolaeth (Mapiau GIS?) i ddarparwyr trafnidiaeth gyhoeddus lleol i lobio ar gyfer llwybrau bws treial. Bydd Cydlynwyr Cynllun Teithio Rhanbarthol yn debyg o wybod am gyfleoedd lleol.	QW	Gweithio gyda'r gr p iechyd a lles i ddarparu teithiau cerdded/ beicio/ teithiau tywys amser cinio yn yr ardal. Hyrwyddo gweithgaredd amser hamdden gyda'r nod o ymrwymiad tymor hir i drefniadau teithio byw.	RC	Ymgysylltu gyda'r Awdurdod Lleol/ Consortia Cynllun Teithio Lleol a Sustrans i weld sut y gellid defnyddio'r Cynllun Teithio Rhanbarthol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer Llwybrau Iechyd a sefydlu prosiectau i annog opsiynau teithio amgen (i'r car).
RC	Cosbi parcio amhriodol â thocynnau cosb a /neu glampio. Hefyd sefydlu mesurau cefnogi ar gyfer apeliadau a sicrhau arwyddion clir fel camau ataliol.	RC	Gwella amgylchedd safle yn seiliedig ar ganfyddiadau archwiliad ansawdd - ceisio cymorth gan y gr p Iechyd a Lles (e.e. gr p Ymarfer Corff Gwyrdd).	QW	Ymchwilio i gyfleusterau storio beiciau mewn gorsafoedd trên a'u hyrwyddo. Mae hyn yn annog rhagor o ddefnydd ar gyfleusterau lleol	RC	Parcio a Theithio/Cerdded/Beicio - hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau lleol, yn hytrach na dod â cheir ar y safle.
RC	Codi ymwybyddiaeth o barcio ceir fel adnodd - datgelu costau darparu meysydd parcio. Cymharu costau e.e. nifer y nyrsys o gymharu â	RC	Llyfr tocynnau - trafod gyda darparwyr trafnidiaeth i gytuno ar 12 tocyn am bris deg. Defnyddio mapiau GIS i nodi'r prif lwybrau.	QW	Y gallu i hawlio milltiroedd beicio ar gael i'r rheiny sy'n beicio i gyfarfod yn yr ardal leol neu'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus wedi ei gyfuno	RC	Adolygu systemau cludo nwyddau/ trafnidiaeth allanol y safle. Sicrhau llwythi llawn a chyfyngu ar amseroedd traffig.

	chyfleusterau meysydd parcio'r Ymddiriedolaeth. Hysbysebu'r casgliadau				gydag opsiynau beicio.		
	parcio		trafnidiaeth gyhoeddus		teithio byw		rhannu car
RC	Dileu parcio cadw i swyddogion gweithredol. Sicrhau bod esiampl yn cael ei gosod i ddangos cydraddoldeb cyfleoedd teithio. Gweithio i hyrwyddo'r hyrwyddwyr ar y safle sydd wedi gwneud newid mewn ymddygiad teithio.	RC	Amserlenni bws a thrên penodol i'r safle yn cael eu hanfon gyda slipiau cyflog – y rhain ar gael ar y safle hefyd.	QW	Gofyn i noddwyr ddarparu e.e. rhestlau beiciau, ymbarelau neu gymhelliannau i annog teithio byw.	RC	Adolygu opsiynau teithio cerbydau cefnogi/ gweithio ar y safle i ganiatáu mynediad hawdd a diogel i gerbydau.
CC	Dechrau system disgiau talu i gleifion ac ymwelwyr eu defnyddio wrth y clwydi fel y gall ceir adael y maes parcio. Rhoddir y disgiau talu yn y dderbynfa pan gyrhaeddir ar gyfer apwyntiad.	RC	Darparu cyfleoedd i brynu tocynnau disgownt bws blynyddol neu dymhorol (aberthu cyflog). Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth lleol i ddyrannu tocynnau blynyddol i ddefnyddwyr.	RC / CC	Darparu / gwella cyfleusterau ar gyfer teithio byw: cawodydd, loceri, ardaloedd newid, ardaloedd sychu, sychwyr gwallt, ac ati. Hysbysebu'r cyfleusterau hefyd. DS: Mae'n werth ymchwilio pa gyfleusterau sydd eisoes ar y safle - efallai y bydd gennych rai ardaloedd addas.	CC	Cymhelliannau rhannu car - rhoi cynnig arni am 6 mis ac yna cael taleb gan e.e. AA, RAC ac ati.
CC	Mae gan drwyddedau parcio gilfachau wedi'u neilltuo ar gyfer rhifau cofrestru - hunan blismona, monitro meysydd parcio.	RC	Darparu cyfleoedd i brynu tocynnau disgownt trên blynyddol neu dymhorol (aberthu cyflog). Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth lleol i ddyrannu tocynnau blynyddol i ddefnyddwyr.	CC	Sicrhau fod y cwmni sy'n darparu eich Cynllun Beicio i'r Gwaith hefyd y darparu sioe deithiol i hyrwyddo'r cyfleoedd ar gyfer prynu a'r llwybrau lleol.	CC	Sefydlu cynllun rhannu car drwy Gydlynwyr Cynllun Teithio Rhanbarthol. Sefydlu gr p caeedig safle benodol, a nodweddion ychwanegol megis dyluniad personol, systemau cyfeillio, ac ati.

	parcio		trafnidiaeth gyhoeddus		teithio byw		rhannu car
C C	Os na ddarperir â gofod, caiff canran ddynodedig o docyn trafnidiaeth gyhoeddus misol ei ad-dalu.	R C	Gellir marchnata darpariaeth rhestlau beiciau mewn gorsafoedd trên lleol (mewn cyrchfannau dechrau a diwedd siwrneiau poblogaidd) fel rhan o'r cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus ehangach.	C C	Datblygu map i ddangos cynllun yn canolbwyntio ar y safle gyda llwybrau cerdded a beicio lleol ac amwynderau lleol. Gall Sustrans drefnu.	C C	Sicrwydd o daith adref mewn tacsi os bydd y rhannu car yn methu - gosod terfyn os bydd angen.
C C	Dal trwyddedau yn eu holau a darparu costau ar gyfer treialu trafnidiaeth gyhoeddus i bobl o fewn e.e. radiws 3 milltir am 3 mis. Treial i gadw dyddiadur o'r profiad. Defnyddio newid cadarnhaol fel astudiaeth achos.	C C	Talebau trafnidiaeth ar gyfer cleifion all deithio ar eu pen eu hunain ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i greu system gyfrifyddu ac anfonebu costau penodol o fewn pharthau siwrnai wedi eu cytuno ymlaen llaw.	C C	Buddsoddi mewn beiciau cronfa i alluogi'r rheiny sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu sy'n rhannu car i feicio rhwng safleoedd neu i amwynderau lleol.	C C	Ceir cronfa ar gael i'r rheiny sydd angen car ar gyfer y gwaith (ac sydd naill ai wedi defnyddio rhannu car neu deithio byw i gyrraedd y safle). I ategu at hyn sicrhau bod trafnidiaeth amgen i deithio i'r safle yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn hygyrch.
C C	Defnyddio clwydi i gyfyngu ar rai sydd ddim yn ddefnyddwyr y safle. Hefyd, staff maes parcio i gynnal gwiriadau cardiau apwyntiad yn y fan a'r lle.	C C	Sicrhau bod arosfannau bws wedi eu lleoli mewn lleoliadau sy'n gyfleus gydag arwyddion da (gweler dogfen Archwiliad Ansawdd).	C C	Darparu hyfforddiant diogelwch beiciau a gweithdai cynnal a chadw beiciau. Wedi eu cyflwyno gan ddarparwr hyfforddiant cydnabyddedig. Gweithio mewn cydweithrediad â darparwr beiciau (os y wahanol) i hysbysebu digwyddiadau.		

	parcio		trafnidiaeth gyhoeddus		teithio byw		rhannu car
C C	Darparu trwyddedau parcio ‘crafu ac arddangos’ wedi eu rhag-ddyrannu – eu dyrannu bob 6 mis. Cyfyngedig i e.e. 3 neu 4 yr wythnos.	C C	Cymorthdalu bysiau i’r safle – cynorthwyo i drefnu llwybr a darparu prisiau rhatach i ddefnyddwyr mynych.	C C	Gwobrwyo teithio byw e.e. talebau/brecwast am ddim am 26 diwrnod o deithio byw mewn 6 mis.		
		C C	Darparu bysiau gwennol wedi’u cymorthdalu neu am ddim rhwng yr orsaf bws a thrên. Gweithio mewn partneriaeth gyda’r Awdurdod Lleol a’r Consortia Teithio Rhanbarthol.	C C	Gweithredu gwelliannau i’r isadeiledd/mesurau diogelwch, yn dilyn canlyniadau ‘archwiliad ansawdd’ ar y safle.		
		C C	Cyfnewidfa bysiau - ar safle mawr gallai terminws fod yn ddewis; Mae trafodaeth gyda’r Awdurdod Lleol a darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol, ynghyd â thystiolaeth o’r gallu.	C C	Cymhelliant ariannol - £2 y dydd am bob teithio byw. Bydd angen system fonitro.		
		C C	Trefnu bysiau o safle i safle, naill ai’n annibynnol neu mewn cydweithrediad â’r Awdurdod Lleol a safleoedd prif gyflogwyr eraill.	C C	Arwyddion clir ar gyfer cerddwyr ar y safle, yn defnyddio llwybrau a ffafrir rhwng adeiladu ac i ganolfannau /arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus.		
		C C	Gwella amgylchedd y safle yn seiliedig ar gasgliadau archwiliad ansawdd - defnyddio contractwyr.	C C	‘Cyfeilion’ i gerdded / beicio ar yr un llwybrau i’r safle – wedi ei sefydlu mewn ffordd debyg i'r cynllun rhannu car, neu drwy’r		

					gr p lechyd a Lles.		
	parcio		trafnidiaeth gyhoeddus		teithio byw		rhannu car
				CC	Darparu benthyciadau di-log ar gyfer offer cerdded.		
				CC	Gwella'r diogelwch ar gyfer beicwyr ar y safle e.e. ardaloedd storio beiciau dan lygad teledu cylch cyfyng, yr heddlu yn tagio beiciau, arwyddion yn rhybuddio modurwyr o ddefnydd deuol y ffordd.		
				CC	A ellir defnyddio amser hyblyg fel gwobr? e.e. 15 munud am bob diwrnod o deithio byw.		
				CC	Darparu lonydd beicio wedi eu harwyddo'n dda a'u marcio'n glir ar y safle. Hwyluso gwelliant amgylcheddol drwy fesurau tawelu traffig		

	Gwybodaeth a Chymhelliant
QW	Pecyn/cerdyn apwyntiadau ymwelwyr/cleifion i gynnwys opsiynau teithio eraill yn lle cyrraedd yn y car ar eich pen eich hun. Darparu cyfarwyddiadau teithio byw a llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus ac amseroedd wedi eu personoleiddio.
QW	Datblygu cynllun cyfathrebu dwy haen – yn cwmpasu cynlluniau i hyrwyddo'r cynllun teithio a'r camau gweithredu i reolwyr/staff, ac ymwelwyr/cleifion/trigolion lleol.
QW	Cyfarwyddwyr/uwch reolwyr yn arwain trwy esiampl - cael o leiaf un uwch reolwr i e.e. 'gwneud addewid 4 diwrnod' a defnyddio trafnidiaeth amgen ar un diwrnod o'r wythnos. Hyrwyddo'r adewid hwn.
QW	Sicrhau bod gwybodaeth am gynnydd a chamau gweithredu'r cynllun teithio yn cael ei lledaenu. Gwneud gwybodaeth ar gael i gyfarfodydd tîm/adrannol, y rhyngrwyd, cyfarfodydd y bwrdd, hysbysfwrdd teithio byw. Darparu diweddariadau yn fisol neu'n wythnosol.
QW	Gwefan yn cael ei diweddaru i fod yn fwy sythweledol i'w defnyddio h.y. tudalennau ar wahân wedi eu clustnodi'n benodol ar gyfer teithio i'r safle - Tudalennau 'dolen atom ni' Traveline Cymru wedi eu gosod yn nhudalennau'r fewnrwyd a'r rhyngrwyd a chyfarwyddiadau teithio byw wedi eu darparu.
QW	Gwneud defnydd o Gydlynwyr Cynllun Teithio Rhanbarthol, darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus, Awdurdod Lleol, Sustrans ac ati ar gyfer lansiad a digwyddiadau hyrwyddo.
QW	Darparu gwybodaeth teithio ar gyfer y rheiny sy'n dod i'r safle am gyfweliad cyntaf – amlinellu amcanion cynllun teithio y safle mor gynnar â phosibl er mwyn hyrwyddo newid mewn ethos teithio ar gyfer y safle cyfan.
QW	Gwneud defnydd o wasanaethau gwirfoddol a gwirfoddolwyr ar y safle yn yr ysbyty - ar gyfer trafnidiaeth gymunedol, dosbarthu dogfennau hyrwyddo, holiaduron ac ati.
QW	Yn yr holiaduron dilynol/monitro, yn cynnwys cwestiwn ar newid agweddau at ymddygiad teithio. Gwneud yn si r bod y canlyniadau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus a hyrwyddo newidiadau cadarnhaol.
QW	Gwneud cais am wobrau cynllunio teithio er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen e.e. mae SWWITCH yn darparu gwobrau am Gynllunio Teithio.
RC	Digwyddiadau yn cael eu hyrwyddo a'u darparu ar y safle - digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol e.e. Wythnos Beicio i'r Gwaith (Mehefin); Yn y Dref Heb y Car (Medi)
RC	Cylchlythyr staff i gynnwys mapiau cerdded a beicio a'r newyddion diweddaraf am y cynllun teithio.
RC	Cymell staff i gytuno i'r addewid 'wythnos 4 diwrnod' - ac felly lleihau parcio gan 20%. Eu cynnwys mewn cystadleuaeth fisol. Efallai bydd angen monitro.

RC	Opsiynau teithio ar gyfer cyrraedd safle'r ysbyty wedi eu hanfon i asiantaethau allanol sy'n cyfeirio'r cyhoedd i'r safle e.e. meddygfeydd deintyddion a meddygon teulu, asiantaethau recriwtio ac ati.
RC	Troshaenu mapiau côd post GIS a llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus – anfon gwybodaeth i'r holl staff sydd ar y llwybrau hynny: amseroedd/ costau/ pellteroedd / cyfleoedd rhannu car, ac ati.
RC	Cyfathrebu - hysbysebu cost rhedeg car o gymharu â thrafnidiaeth gyhoeddus neu deithio byw.
RC	Unwaith y bydd ymddygiad wedi dechrau newid, mae angen cymhelliant parhaus. Darparu digwyddiadau, cymhelliannau, rhoi cyhoeddusrwydd i'r effaith a darparu adborth cadarnhaol.
RC	Cynhyrchu 'Polisi Agweddau' sy'n amlygu agwedd gyfrifol yr Ymddiriedolaeth tuag at deithio, a materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eraill, wedi'i ganolbwyntio ar agweddau dinasyddiaeth gorfforaethol dda o hybu byw iach a lleihau allyriadau carbon. Gallai hon fod yn ddogfen trosfwaol i ddwyn ynghyd gweithio ar y cyd. Hyrwyddo gyflogeion newydd.
RC	Cyflwyno proses ymsefydlu. Sicrhau bod adran wedi ei neilltuo i deithio. Pwysleisio ethos y safle a'r newidiadau ymddygiad teithio cadarnhaol.
RC	Pecyn ymsefydlu ar gael i bob dechreuwr newydd. Darparu amserlenni, opsiynau cynllun aberthu cyflog, mapiau ac amlinelliad o amcanion y Cynllun Teithio.
RC	Cynllun Cyfathrebu a Marchnata wedi ei alinio gydag amcanion a chamau gweithredu'r Cynllun Teithio.
RC	Gofyn i gwmni cysylltiedig â'r GIG i noddi deunyddiau hyrwyddo e.e. mesuryddion camau, ymbarelau, tywelion ac ati.
RC	Hysbysfyrddau wedi eu gosod ym mynedfa pob prif adeilad.
CC	Cyflwyno 'sesiynau cinio a dysgu' am ddim neu sesiynau opsiynau teithio personol galw heibio.
CC	Sefydlu loteri 'teithio byw' bob wythnos. Rhoddir rhif i bob aelod o staff, ac os ydynt wedi teithio'n egnïol ar y diwrnod hwnnw, byddant yn cael gwobr e.e. £5 neu daleb. DIM OND y rhai hynny sy'n teithio'n egnïol ar y diwrnod hwnnw sy'n ennill.
CC	Defnyddio darparwyr hyfforddiant beicio (e.e. Cycle Training Wales, Cycle Solutions) i ddarparu sioeau teithiol i dynnu sylw ymwelwyr â'r safle at yr opsiynau teithio byw.
CC	Gall cymhelliannau i ddechrau teithio'n egnïol gynnwys - ffrisbis, mesurydd camau, poteli d r, io-io, mapiau, peli tenis/pêl droed, brecwast beicio a cherdded ac ati. DS: Dengys egwyddorion perswadiol bod darparu cymhelliannau amodol, ymlaen llaw yn gweithio orau - yn hytrach na 'llwgrwobrwyon'
CC	Gellir defnyddio sgriniau plasma sydd wedi eu gosod ar y llwybrau prifwythiennol mewn adeiladau i hysbysebu'r cymhelliannau teithio ac amseroedd trafnidiaeth gyhoeddus.

CC	Gofod yn y fynedfa flaen wedi ei neilltuo ar gyfer hysbysebu cyfloed teithio megis rhannu car, tocynnau disgownt, cynllun teithio i'r gwaith ac ati.